Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Dwyrain Cymru

## Rhaglen Cronfa Gymdeithasol Ewrop 2014-2020

## Adroddiad Gweithredu Blynyddol 2017 – Crynodeb

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

# 1. Cyflwyniad

**Dyma grynodeb o'r trydydd Adroddiad Gweithredu Blynyddol ar gyfer Rhaglen Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) Dwyrain Cymru, sy'n cwmpasu blwyddyn adrodd 2017.**



## Trosolwg

Mae Cymru yn elwa ar ryw €2.4 biliwn o Gyllid yr UE drwy bedair rhaglen Cronfeydd Strwythurol 2014-2020. Mae hyn yn cynnwys rhyw €200 miliwn drwy Raglen Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) Dwyrain Cymru i helpu i gyflawni twf economaidd drwy hyrwyddo lefelau uchel o gyflogaeth gynaliadwy, gan ddatblygu gweithlu medrus ac ymatebol yng Nghymru yn awr ac yn y dyfodol.

Awdurdod Rheoli'r Rhaglen yw Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), o fewn Llywodraeth Cymru.




## Ynglŷn â'r Rhaglen

Mae Rhaglen ESF Dwyrain Cymru yn canolbwyntio ar dri maes allweddol:

- targedu tlodi ac allgáu cymdeithasol trwy hyrwyddo cyflogaeth gynaliadwy;
- buddsoddi mewn gweithlu medrus; a
- buddsoddi yn ein pobl ifanc i sicrhau eu bod yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.

Mae'r Rhaglen yn hwyluso datblygiad portffolio cytbwys o fuddsoddiadau, ac yn cefnogi canlyniadau tymor byr sy'n ymwneud â chyflogaeth a chymwysterau, a chanlyniadau mwy hirdymor fel mynd i'r afael â materion strwythurol diweithdra ymhlith pobl ifanc a phobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

# Meysydd blaenoriaeth y Rhaglen:

## Blaenoriaeth 1: Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy

- Cynyddu cyflogadwyedd pobl sy'n Economaidd Anweithgar ac sy'n Ddiwaith yn yr Hirdymor sy'n 25 oed neu hŷn ac sy'n wynebu rhwystrau cymhleth i gyflogaeth.

## Blaenoriaeth 2: Sgiliau ar gyfer Twf

- Cynyddu lefelau sgiliau, gan gynnwys sgiliau sy'n berthnasol i waith, y rhai yn y gweithlu sydd â sgiliau isel os o gwbl.
- Cynyddu nifer y bobl yn y gweithlu sydd â sgiliau technegol a phenodol i waith ar lefel ganolraddol ac uwch.
- Gwella sefyllfa menywod yn y gweithlu.

## Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth ymhlith Pobl Ifanc

- • Lleihau nifer y bobl ifanc 16-24 oed Nad ydynt mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant (NEET).
- • Lleihau nifer y bobl ifanc rhwng 11 a 24 oed sy'n wynebu'r risg o fod yn NEET.

## Blaenoriaeth 4: Cymorth Technegol


- Sicrhau bod rhaglenni 2014-2020 yn cael eu rheoli'n effeithlon ac yn effeithiol.
- Rhoi cyngor o ansawdd uchel i bartneriaid allweddol sydd ynghlwm wrth ddylunio a chyflawni gweithrediadau.
- Gwella'r broses o integreiddio buddsoddiadau â chronfeydd ESI eraill ynghyd â rhaglenni ehangach a arweinir gan y Comisiwn ac sy'n seiliedig ar Sector, a'u gwneud yn fwy ategol.

## Y gyllideb oedd ar gael o dan bob un o Flaenoriaethau'r Rhaglen:

| Blaenoriaeth | Cyllideb yr UE | Cyfanswm y Gyllideb[1] |
|---|---|---|
| Blaenoriaeth 1: Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy | €44m | €88m |
| Blaenoriaeth 2: Sgiliau ar gyfer Twf | €95m | €197m |
| Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth ymhlith Pobl Ifanc | €60m | €120m |
| Blaenoriaeth 4: Cymorth Technegol | €4m | €9m |
| **Cyfanswm a oedd ar gael o'r Rhaglen** | **€203m** | **€413m** |

[1] Swm Cyllideb yr UE wedi'i gyfuno ag arian cyfatebol

### Rhanbarthau Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru ar gyfer 2014-2020



# 2. Cynnydd y Rhaglen

## Trosolwg

Erbyn diwedd 2017, roedd Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi €126 miliwn o gyllid yr UE mewn 34 o brosiectau, gan arwain at gyfanswm o €411 miliwn o fuddsoddiad yn Nwyrain Cymru.


Gwnaed cynnydd da i nifer o ddangosyddion y Rhaglen yn ystod 2017, gan gynnwys:

- cefnogi rhyw 37,200 o bobl, 8,000 o'r rhain yn bobl ifanc
- ennill bron i 12,000 o gymwysterau
- cefnogi dros 1,600 o bobl i gael cyflogaeth
- bron 2,000 o bobl yn dechrau hyfforddiant pellach

## Cynnydd Ariannol

Mae'r siart canlynol yn dangos, fesul Blaenoriaeth, gyfanswm cyllid yr UE a fuddsoddwyd mewn prosiectau.

**Siart 1: Cyllid yr UE: Cyllideb, Cymeradwywyd a Gwariwyd**



# 3. Cynnydd fesul Blaenoriaeth

## Blaenoriaeth 1: Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy







**Mae helpu pobl i gael cyflogaeth gynaliadwy yn allweddol i leihau lefelau tlodi a chynyddu cynhwysiant cymdeithasol. Mae cyllid yr UE yn helpu i fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag dod o hyd i waith ac mae'n canolbwyntio ar gynyddu cyflogaeth a gweithgarwch economaidd ledled Cymru.**

Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd 42% (€18 miliwn) o Gyllid yr UE a oedd ar gael o dan y Flaenoriaeth hon wedi'i fuddsoddi mewn saith prosiect. Mae cynnydd wedi parhau yn ystod 2017, trwy gymeradwyo dau brosiect arall.

Roedd y ddau brosiect newydd a gymeradwywyd yn rhai dan arweiniad Llywodraeth Leol: Journey 2 Work dan arweiniad Cyngor Dinas Casnewydd sy'n darparu cymorth i'r rhai sydd ymhellach o'r farchnad lafur yng Nghasnewydd, Caerdydd, Sir Fynwy a Bro Morgannwg; a Gweithffyrdd+ Powys dan arweiniad Cyngor Sir Powys, sy'n cefnogi'r rhai a fu'n ddi-waith yn yr hirdymor yn ôl i'r gwaith.



# Astudiaeth Achos: Cronfa Cynhwysiant Gweithredol

Mae Cronfa Cynhwysiant Gweithredol Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) wedi defnyddio £22.4 miliwn o gyllid UE i gefnogi prosiectau lleol sy'n helpu i leihau anweithgarwch economaidd a chynyddu cyflogadwyedd pobl o gefndiroedd bregus a difreintiedig.

Mae John o Gaerdydd yn un o filoedd o bobl ledled Cymru sydd wedi cael budd o'r Gronfa. Roedd ei flynyddoedd yn yr ysgol yn anodd oherwydd nifer o heriau personol, ac roedd yn nerfus iawn ynglŷn â chwrdd â phobl newydd. Ond yn 2017, cofrestrodd John ar raglen sgiliau lletygarwch a gyflwynwyd gan Sefydliad Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd.

“Ces i wybod am y rhaglen ar-lein. Dywedodd fy seicolegydd wrtha i amdano a llenwais i'r ffurflen gais gyfan fy hun. Fe wnes i fwynhau'r cwrs yn fawr iawn, yn cymdeithasu gyda'r bobl ac roedd y profiad yn dda iawn.”

Datblygodd John yn dda yn ystod y rhaglen. Aeth i sesiynau'n rheolaidd a daeth yn aelod gwerthfawr o'r grŵp, gan ddangos gallu naturiol i gefnogi a mentora aelodau eraill o'r tîm.

Ar ôl cymryd rhan yn y Gronfa Cynhwysiant Gweithredol, llwyddodd John i gael profiad gwaith tymor byr gyda siop yng Nghaerdydd.

Dywedodd John: "Gwnes i fwynhau gweithio yn y siop yn fawr iawn, dydw i ddim yn gallu disgrifio mor hapus oeddwn o gael profiad mewn amgylchedd gwaith.

"Gwnes i fwynhau cwrdd â phobl a'u helpu nhw i wneud pethau. Hefyd, helpodd fy hunan hyder i a'm helpu i gwrdd â phobl newydd ac ymdrin â heriau newydd.”

Yn dilyn y profiad gwaith a gafwyd trwy'r prosiect, cafodd John gyflogaeth barhaol.




## Blaenoriaeth 2: Sgiliau ar gyfer Twf




**Mae cynyddu sgiliau a mynediad at hyfforddiant yn helpu i greu gweithlu cryf ac amrywiol a all ymdrin â heriau'r farchnad lafur ac ysgogi cynhyrchiant economaidd a thwf busnes. Mae cyllid yr UE yn helpu i gynyddu sgiliau galwedigaethol a sgiliau lefel uwch. Mae cyllid yr UE hefyd yn helpu i leihau anghydraddoldeb rhwng y rhywiau, ac yn cefnogi datblygiad menywod yn y gweithlu.**



Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd 57% (€55 miliwn) o gyllid yr UE a oedd ar gael o fewn y flaenoriaeth hon wedi'i fuddsoddi mewn deg prosiect, gan gynnwys rhaglen Brentisiaethau Llywodraeth Cymru. Dyfarnwyd estyniad a rhagor o arian i Raglen Graddedigion Gwasanaethau Ariannol Cymru, dan arweiniad Fforwm Canolfan Gyswllt Cymru.




Gwnaed cynnydd da mewn nifer o ddangosyddion, gan gynnwys cefnogi dros 26,100 o gyfranogwyr. Roedd canlyniadau cymwysterau yn galonogol hefyd, wrth i bron 10,000 o gyfranogwyr sicrhau cymwysterau, sy'n agos at dargedau rhaglenni.



# Astudiaeth Achos: Prentisiaethau

Mae cyllid yr UE yn cefnogi tua 100,000 o brentisiaethau ledled Cymru.

Roedd Kayleigh o Gwmbrân yn hoffi gwneud pethau ymarferol yn yr ysgol ac yn mwynhau gweithio ar brosiectau gartref. Felly roedd hi’n gwybod nad oedd hi’n dymuno aros mewn addysg ystafell ddosbarth amser llawn ac roedd yn anelu at yrfa mewn peirianneg.



Yn 16 oed, cynigiwyd prentisiaeth i Kayleigh gyda chwmni peirianneg byd-eang, sy’n ymwneud â mesur, rheoli symudiad, gofal iechyd, sbectrosgopeg a gweithgynhyrchu. Mae’r cwmni’n cyflogi dros 2,800 o bobl yn y DU.



Cyflawnodd Kayleigh HNC mewn Peirianneg Gweithgynhyrchu Peirianyddol â rhagoriaeth, cymhwyster comisiynu NVQ lefel 3 trwy Brifysgol De Cymru, a gyflawnwyd mewn hanner yr amser a ddyrannwyd iddo.

Mae Kayleigh erbyn hyn yn ei blwyddyn ‘Gwella’ olaf yn y cwmni ac mae eisoes wedi sicrhau canlyniadau llwyddiannus. Ar hyn o bryd mae’n gweithio yn y Grŵp Datblygu Cydosod sy’n cynnwys cymhwyso newidiadau ym maes peirianneg i beiriannau gweithgynhyrchu ychwanegion metel uwch y cwmni. Mae Kayleigh yn awr yn bwriadu symud ymlaen i HND llawn a Diploma mewn Gweithgynhyrchu a Pheirianneg Beirianyddol.



## Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth ymhlith Pobl Ifanc




**Bydd cefnogi pobl ifanc nad ydynt mewn addysg cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yn helpu i leihau diweithdra ymhlith pobl ifanc a gwella'u rhagolygon gyrfa a bywyd. Mae cronfeydd yr UE yn canolbwyntio ar godi lefelau cyflawniad, lleihau nifer y bobl sy'n gadael yr ysgol yn gynnar a chefnogi'r rhai sydd mewn peryg o fod yn NEET.**

Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd 82% (€49 miliwn) o gyllid yr UE a oedd ar gael o fewn y Flaenoriaeth hon wedi'i fuddsoddi mewn 12 o brosiectau, gan gynnwys y tri buddsoddiad a wnaed yn ystod 2017 ar gyfer prosiectau NEET Ysbrydoli i Weithio, dan arweiniad Cyngor Dinas Casnewydd, ADTRAC, dan arweiniad Grŵp Llandrillo Menai, a Cynnydd, dan arweiniad Cyngor Sir Powys.




Erbyn diwedd 2017, roedd y prosiectau wedi cefnogi dros 8,000 o bobl ifanc, gan ddangos cynnydd sylweddol o'i gymharu â thargedau'r Rhaglen i leihau nifer y bobl NEET neu'r rhai sydd mewn peryg o fod yn NEET.

Mae rhagolygon perfformiad y prosiect yn galonogol. Bydd yn caniatáu ar gyfer buddsoddi'r cyllid sy'n weddill mewn meysydd penodol pwysig, fel helpu unigolion yn y cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a'r rhai â chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio.



# Astudiaeth Achos: TRAC 11-24 (Dwyrain Cymru)




Mae TRAC 11-24 yng ngogledd Cymru yn helpu i leihau nifer y bobl ifanc 11-24 oed sydd mewn peryg o fod yn NEET (nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant).


Dan arweiniad Cyngor Sir Ddinbych a chymorth £2.5 miliwn o gyllid yr UE, mae'r cynllun yn cael ei gyflwyno mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol a cholegau Addysg Bellach. Mae'n gweithio'n agos gydag ysgolion i nodi a chefnogi pobl ifanc sydd mewn peryg o ddatgysylltu o addysg a hyfforddiant.

Mae TRAC 11-24 yn darparu amrywiaeth o gymorth iechyd a lles sy'n ategu ac nid yn dyblygu gwasanaethau prif ffrwd. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaeth cwnsela, cyngor ar lesiant a phresenoldeb, cyrsiau a lleoliadau gwaith a chyngor pwrpasol gan Gyrfa Cymru.

Mae myfyrwyr sy'n cael anawsterau dysgu yn cael mentor ag arbenigedd mewn amrywiaeth o faterion, gan gynnwys tai, lles ac iechyd a llesiant er mwyn i fyfyrwyr allu canolbwyntio ar eu dysgu a sicrhau eu bod yn parhau i ymgysylltu ag addysg.

Nod y prosiect yw cefnogi dros 3,000 o bobl ifanc ac mae eisoes wedi cyflawni llawer o ganlyniadau rhagorol, gan gynnwys:

- lleoliadau gwaith sy'n cynnig swyddi parhaol
- colegau sy'n cynnig lleoedd diamod
- gwell sgôr llesiant
- cymwysterau mewn amrywiaeth o alwedigaethau
- cannoedd o bobl ifanc yn datblygu sgiliau newydd i helpu i lunio'u dyfodol
- perthynas gryfach rhwng teuluoedd a llawer o gysylltiadau a ffrindiau newydd



# Blaenoriaeth 4: Cymorth Technegol

**Mae Cymorth Technegol yn adnodd hanfodol y mae WEFO a phartneriaid eraill yn ei ddefnyddio i gefnogi cyflawniad effeithiol y Rhaglen.**

Roedd €3 miliwn (77% o ddyraniad y flaenoriaeth) o gyllid yr UE wedi'i fuddsoddi mewn pum prosiect erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys cymorth refeniw i WEFO gyflawni'r rhaglen yn effeithiol, tri Thîm Ymgysylltu Rhanbarthol wedi'u lleoli yn y Gogledd, y Canolbarth a'r De-ddwyrain, a chymorth refeniw Corff Cyfryngu i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Mae'n bosibl y bydd rhagor o fuddsoddiad mewn prosiectau presennol yn 2018.








Mae rhagor o wybodaeth am Raglen ESF Dwyrain Cymru ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yma.

@wefocymru

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Gymdeithasol Ewrop**
**European Social Fund**